ADFENT 3

SEFFANEIA 3:14-20; ESEIA 12:2-6;
PHILIPIAID 4:4-7; LUC 3:7-18

● Gweddi agoriadol

Dyma'r Adfent, tymor disgwyl. Mewn cartrefi drwy'r wlad, saif cardiau Nadolig ar silff-ben-tân a sil ffenest. Addurnwyd coed yr ŵyl â thinsel a chlychau, a phlant yn dyfalu pa anrhegion fydd dan y goeden eleni.

Ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, disgwyliai cenedl mewn gobaith wrth wrando ar broffwyd o'r enw Ioan yn sôn am yr un oedd i ddod, a dechrau eu paratoi eu hunain i'w gyfarfod.

Dduw Dad, daeth dy was Ioan Fedyddiwr gyda galwad am edifeirwch a bywydau wedi'u trawsnewid. Llanwyd y rhai a glywodd â disgwyliadau, yn disgwyl am y Meseia, ond wedyn yn methu sylwi ar ei ddyfodiad. Yr Adfent hwn, boed i ninnau gael ein llenwi â disgwyliadau wrth i ni ddathlu yr anrheg mwyaf i gyd – dy Fab, Iesu Grist.

● Moliant

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser!
Gwaeddwch ei enw,
achos mae Duw gyda ni;
mae ein Duw gyda ni,
Duw ein hiachawdwriaeth,
yr unig un y llwyr ymddiriedwn ynddo.

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser!
Gwaeddwch ei enw,
achos Duw yw ein Tad
sy'n dod â ni adre
heibio nentydd o ddŵr bywiol
lle na sychedwn mwyach.

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser!
Gwaeddwch ei enw,
achos mae'n ein harwain ar ein ffordd,
a'n galluogi
i fod y bobl
y'n bwriadwyd.

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser!
Gwaeddwch ei enw,
achos mae Duw gyda ni;
mae ein Duw gyda ni.

● **Cyffes**
Maddau i ni, Arglwydd;
pobl grwydrol ydym ni
sy'n penlinio o'th flaen yn awr
gan ddod â'n gweddïau
a'n ceisiadau at dy draed
pan fyddwn dy angen,
ac wedyn yn mynd ein ffordd ein hunain
pan yw'r amserau yn dda
a bywyd yn ymddangos yn hawdd.

Maddau i ni;
dysga i ni dy lwybrau,
er mwyn i ni dy ddilyn di
ddydd ar ôl dydd,
mewn heulwen a glaw,
llawenydd a thristwch,
a mwynhau dy gwmni
o eiliad ein deffro
nes gosod ein pennau i orffwys.

● **Diolch**
Ti yw'r Tad
sy'n croesawu adre
yr afradlon pell-grwydrol.

Ti yw'r Tad
sy'n paratoi gwledd
pan fydd eraill yn cerdded i ffwrdd.

Ti yw'r Tad
y mae dy gariad yn ymestyn
y tu hwnt i'n meddyliau a'n teimladau.

Ti yw'r Tad
sy'n nabod ein calonnau,
ac eto yn ein caru fel yr ydym.

Ti yw'r Tad
yr ymddiriedwn yn ei air,
nad oes gennym ofn pan fyddwn yn ei freichiau.

Ti yw'r Tad
y mae ei gyffyrddiad tyner
yn cyfannu'r ysbryd clwyfus.

Ti yw'r Tad
y ganed ei unig Fab
er mwyn iddo farw.

Ti yw'r Tad
y dygwn iddo
ein diolch dwfn heddiw.